| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **17 Mehefin 2011** |
| **PWNC** | **Cytundeb Cyflawni** |
| **ARGYMHELLIAD** | **(i) Bod y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwyo'r ymateb a awgrymir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma.**<br>**(ii) Bod y Pwyllgor yn argymell bod Bwrdd Cyngor Gwynedd a Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo'r CC a welir yn Atodiad 2.** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi), Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd** |

**1 Cyflwyniad**

1.1 Mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd baratoi Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ar ei ffurf derfynol bydd yn rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses paratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'r CC yn darparu cynllun rheoli amserlen paratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau hefyd, sy'n dweud pryd a sut gall y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill gyfrannu at y broses. Mae'n rhaid cael barn budd-ddeiliaid allweddol am y CC cyn gellir ei fabwysiadu.

1.2 Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd gymeradwyo fersiwn drafft ymgynghorol o'r Cytundeb Cyflawni yn ystod ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2011.

**2 Yr ymgynghoriad cyhoeddus**

2.1 Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 14 Ebrill 2011 ac fe ddaeth y cyfnod ymgynghori i ben ar yr 2il Mehefin 2011.

2.2 Fe gymerwyd y camau canlynol i godi ymwybyddiaeth am y CC drafft a'r cyfnod ymgynghori:

- Rhoi rhybudd yn y papurau wythnosol lleol;
- Rhoi copi o'r ddogfen yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol, ym mhrif swyddfeydd y ddau Gyngor ac ar wefan y ddau Gyngor;

- Ysgrifennu at y Cyrff Ymgynghori Statudol a’r Cyrff Ymgynghori Cyffredinol;
- Ysgrifennu at unigolion a chwmnïau sydd ar y ffeil fasdata oherwydd eu bod wedi dangos diddordeb yn y Cynllun.

2.3 Mae’r trefniadau uchod yn cyd-fynd a gofynion y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

2.4 Paratowyd ffurflen ymateb er mwyn hwyluso’r broses ac fe welir y cwestiynau a ofynnwyd yn Atodiad 1.

## 3 Yr ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus

3.1 Derbyniwyd sylwadau gan 25 yn ystod y cyfnod ymgynghori.

3.2 Mae Atodiad 1 i’r adroddiad yma yn:

i) cyflwyno’r sylwadau a dderbyniwyd;
ii) yn cynnig ymateb i’r sylwadau;
iii) yn adnabod diwygiadau arfaethedig i rannau perthnasol o’r CC

3.3 Ni chredir fod angen gwneud diwygiadau arwyddocaol i’r CC mewn ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus.

3.4 Mae copi o’r CC diwygiedig i’w weld yn Atodiad 2 i’r adroddiad yma.

## 4 Camau nesaf

4.1 Mae’r tabl isod yn dangos y camau nesaf sef:

Cam 1 - Pwyllgorau Craffu perthnasol Môn a Gwynedd - craffu
Cam 2 - Bwrdd Cyngor Gwynedd a Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn - argymell cytundeb
Cam 3 - Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn - mabwysiadu’r ddogfen
Cam 4 - Cyflwyno’r CC i Lywodraeth Cymru gan ofyn iddo gytuno iddo
Cam 5 – Ymateb i sylwadau Llywodraeth Cymru a chyhoeddi’r CC terfynol.

## 5 Argymhelliad

5.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwyo’r ymateb a awgrymir yn Atodiad 1 i’r adroddiad yma.

5.2 Bod y Pwyllgor yn argymell bod Bwrdd Cyngor Gwynedd a Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo’r CC a welir yn Atodiad 2.